

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Newyddlen Tenantiaid

Cydweithio i wella eich cartrefi...

HYDREF
2010



Chwith i dde:
Gareth Jones, Alun Thomas, Dafydd Roberts a Christian Hughes

Cyflwyno eich wardeniaid cymunedol

Un o'r addewidion gafodd ei wneud yn y ddogfen gynbig cyn y bleidlais yn 2009 oedd y byddwn yn darparu gwasanaethau lleol o'r safon uchaf i denantiaid. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu tîm o wardeniaid cymunedol i weithredu ar draws y Sir.

Bellach mae'r tîm hwnnw yn ei le a gallwch eu gweld ar waith yn eich ardal chi.

Alun Thomas yw'r Warden ar gyfer Bangor; bydd Christian Hughes yn gweithio yng Nghaernarfon; Dafydd Roberts yn ardaloedd gwledig gogledd Gwynedd (Dyffryn Ogwen, Peris a Nantlle); a Gareth Jones yn ne Gwynedd (Dwyfor a Meirionnydd).

Prif rôl y wardeniaid fydd cymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau ar y stadau, ymweld â thenantiaid newydd a chynnig cefnogaeth i denantiaid yn ôl yr angen. Rhan bwysig o'u gwaith hefyd fydd ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chydweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid lleol eraill i'w dacio.

Os ydych am gysylltu â'r Wardeniaid ffoniwch Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar **0300 123 8084**.

Unrhyw straeon?

Rydym am wybod beth hoffech chi weld yn ymddangos yn y newyddlen yn y dyfodol. Cysylltwch â ni gyda'ch syniadau neu'ch straeon.

Ffoniwch ni ar:
0300 123 8084
neu e-bostiwch:
cyfathrebu@ccgwynedd.org.uk

Gallwch ysgrifennu atom hefyd:

Newyddlen Tenantiaid
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Uned 6 a 7 Llys Castan
Parc Menai
Gwynedd
LL57 4FD



0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

Ydi eich **NWY** wedi ei wasanaethu yn ddiweddar?

Mae CCG yn cynnal arolwg diogelwch nwy yn ei gartrefi bob blwyddyn. Mae'n ddyletswydd arnom i wneud hynny yn ôl y gyfraith. Nid ni sy'n gyfrifol am offer sydd heb ei osod – fel popty nwy a gwresogydd symudol. Ac os nad CCG osododd yr offer nid ni sy'n gyfrifol chwaith.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod ein peirianwyr yn cael mynediad i'ch cartref i wasanaethu eich system a'ch offer nwy.

Bydd gan beirianwyr nwy sy'n gweithio ar ran CCG wastad gerdyn adnabod. Hefyd rhaid i unrhyw un sy'n gwneud gwaith ar gyfarpar neu ffitiadau nwy fod wedi eu cofrestru gyda Gas Safe. Gofynnwch bob amser am gael gweld cerdyn adnabod Gas Safe cyfredol. Gallwch gysylltu â Gas Safe yn ystod oriau gwaith ar 0800 408 5500 neu ewch i www.gassaferegister.co.uk.

I'n helpu ni helpu chi, dilynwch y camau syml hyn:

- Edrychwch pryd oedd y tro diwethaf i chi gael archwilio'ch offer nwy, os yw tystysgrif diogelwch wedi pasio ei ddyddiad cysylltwch â'r uned cynnal a chadw ar 0300 123 8082;
- Os oes gennych apwyntiad gwnewch yn siŵr bod digon o gredyd yn eich mesurydd;
- Os ydych yn berchen ar eich offer nwy eich hun gwnewch yn siŵr bod copïau o'r tystysgrif diogelwch ar gael i gontractwr CCG i'w weld;
- Rhowch eich gwres ymlaen cyn y gaeaf a rhowch wybod i ni am broblemau cyn iddi hi fynd yn rhy oer, rydym yn brysur iawn gyda systemau'n torri i lawr yn ystod misoedd y gaeaf;
- Cofiwch ateb unrhyw lythyr ynglŷn â gwasanaethu nwy a chael mynediad i'ch cartref - **PEIDIWCH â'u hanwybyddu, maent yn cael eu hanfon er mwyn eich cadw chi a'ch teulu yn ddiogel.**

Os ydych mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r wybodaeth uchod, croeso i chi gysylltu â ni a byddwn yn hapus i helpu.

DIOGELWCH NWY

PEIDIWCH â defnyddio offer nwy os nad ydych yn meddwl ei fod yn gweithio'n iawn - ymysg arwyddion o berygl mae fflam felen neu oren, huddyg neu staeniau o gwmpas yr offer a goleuadau peilot sy'n diffodd yn aml.

PEIDIWCH â gorchuddio cyfarpar na rhwystro'r tyllau awyru confensiynol.

PEIDIWCH BYTH â chau unrhyw gril neu frics awyru.

Os ydych yn aroglu nwy neu yn amau fod nwy yn gollwng cofiwch:

- Agor pob drws a ffenestr
- Diffodd y cyflenwad nwy a'r falf rheoli mesurydd
- Peidio â throï unrhyw offer trydan ymlaen

Os yw'r nwy yn dal i ollwng ffoniwch y Grid Cenedlaethol (Nwy) ar y rhif argyfwng nwy 0800 111 999.



Garddio yn Ffynhonnau

Mae tenantiaid tai gwarchod Ffynhonnau, Dolgellau yn edrych ymlaen at y gwanwyn i gael gweld ôl gwaith prosiect ar y cyd rhwng Tim Gwasanaethau Bro CCG a Gwasanaeth Prawf Cymru.

Yn ddiweddar aeth criw o fechgyn ar gynllun Ad-dalu Cymuned y Gwasanaeth Prawf a wardeniaid Meirionnydd ati i dwtio tir o gwmpas y tai gwarchod a phlannu cannoedd o fylbiau cennin pedr.

Meddai Humphrey Jones, Cydlynnydd Cyswllt Cymunedol CCG: "Roedd hi'n bleser cael cydweithio gyda grŵp mor gydwybodol a gweld y gwahaniaeth mae prosiect fel hyn yn gallu ei wneud. Mae'r tenantiaid wedi canmol ac yn gwerthfawrogi'r gwaith caled ac yn edrych ymlaen rŵan i weld yr ardd yn blodeuo'r flwyddyn nesaf. Mae hwn yn enghraifft bwysig o sut allwn ni weithio gyda phartneriaid fel y Gwasanaeth Prawf er budd ein tenantiaid a'r gymuned."

Yn ogystal â phlannu Cennin Pedr bu'r bechgyn wrthi'n plannu amrywiol flodau, torri gwair, twtio gwrychoedd ac yn chwynnu o amgylch safle Ffynhonnau.




Cae chwarae newydd i blant Gellilydan

Diolch i waith caled cymdeithas tenantiaid a phreswylwyr Gellilydan, mae plant yr ysgol leol yn berchnogion hapus ar gae chwarae newydd sbon.

Mae aelodau'r gymdeithas, disgyblion yr ysgol, CCG a'r Cyngor wedi cydweithio i ddatblygu'r cae newydd, agorodd ar ddechrau'r tymor yn Ysgol Edmwnd Rhys.

Y gymdeithas tenantiaid yn y pentref yw un o'r rhai hynaf yng Ngwynedd. Cafodd ei ffurfio yn y 90au ac mae wedi trefnu nifer fawr o ddigwyddiadau ar y stad ac yn y pentref ers hynny. Mewn partneriaeth a chyrrff lleol fel y Gwasanaeth Tân ac Achub, a Chadw Cymru'n Daclus mae'r aelodau wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau twtio ar y stad, triapiau allan i blant a phartion stryd.



Dyweddodd Val Jones, cadeirydd y Gymdeithas, ac aelod o Fwrdd CCG: "Ryda ni am ddiolch i bawb gyfrannodd tuag at ddatblygu'r cae chwarae. Mae wedi golygu llawer o waith caled a chodi arian diflino. Mae'r pensaer, staff CCG a'r adeiladwr wedi gwneud gwaith gwych ac mae'r plant wrth eu boddau gyda'r canlyniad. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb gyfrannodd mewn cymorth grant hefyd."

Dyweddodd Gwyn W Jones, swyddog cyswllt cymunedol CCG: "Rwy'n adnabod Val ers blynnyddoedd ac yn gwybod ei bod hi wedi gweithio yn galed ar y prosiect hwn ac eraill. Roedd yn brofiad gwych gweithio gyda disgyblion Gellilydan ac i weld y budd maen nhw yn ei gael allan o'r maes chwarae newydd yma."

Pwyslais ar wasanaeth cwsmer

Un o flaenoriaethau Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw sicrhau bod ein gwasanaeth cwsmer o'r safon uchaf a'n bod ni yn llwyddo i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf yn amlach. Er mwyn cyflawni hyn mae Fforwm Ansawdd Gwasanaeth Cwsmer wedi ei sefydlu fel y gall staff a thenantiaid gydweithio i gadw golwg ar y gwasanaeth mae CCG yn ei ddarparu.

Fel rhan o hyn bydd tenantiaid yn chwarae rhan gynyddol yn y broses o wella gwasanaethau Cartrefi Cymunedol Gwynedd trwy Bartneriaeth Archwilio Tenantiaid CCG.

Mae pedwar tenant wedi eu hyfforddi trwy gynllun Grant Grymuso Tenantiaid i fod yn archwilywyr fel rhan o'r bartneriaeth. Bydd y grŵp yn gweithio ar y cyd gyda swyddogion CCG i fonitro a gwerthuso gwasanaethau tenantiaid.

Mae Tenantiaid Archwilywyr bellach yn gweithio ar draws Cymru ac yn cael eu hystyried yn allweddol yn y broses o wella gwasanaethau yn y sector.

Bydd canlyniadau unrhyw archwiliad yn cael eu cyflwyno ynghyd ag unrhyw argymhellion i'r swyddogion perthnasol yn CCG. Byddwn yn dod a newyddion i chi am ganlyniadau a newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r cynllun trwy'r newyddlen hon ac ar wefan CCG.

Dyweddodd Margaret Bracegirdle, sy'n denant ac yn archwiliwr: "Ein rôl ni yw adnabod unrhyw broblemau a gwasanaethau sydd ddim yn cyrraedd y safon, ond hefyd mae'n bwysig ein bod ni yn cydnabod y gwasanaethau da y mae CCG yn eu darparu. Rwy'n meddwl bod hwn yn gam pwysig ymlaen a bydd yn golygu bod tenantiaid a CCG yn cydweithio i sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf. Mae hefyd yn rhoi llais i denantiaid yn y ffordd y mae CCG yn darparu gwasanaethau i ni."

Yn ôl Rhys Jones, Cyfarwyddwr Cymunedau a Chwsmeriaid: "Yn y dyfodol mae'n debyg y bydd tenantiaid archwilywyr yn chwarae rhan bwysig yn y broses hunan-reoli sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth y Cynulliad. Y gobaith yw y bydd y rhaglen yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn cwrdd ag anghenion tenantiaid ond hefyd ein bod yn gallu addasu i gwrdd ag unrhyw her newydd yn y dyfodol."



Rhaglen uwchraddio...

Beth yw'r diweddaraf?

Ers y newyddlen ddiwethaf mae gwaith cynllunio ar y rhaglen fuddsoddi ac uwchraddio cartrefi yn mynd yn dda. Mae Savills eisoes wedi gorffen yr arolygon cychwynnol, ac mae hyn wedi rhoi darlun cliriach i ni o natur y gwaith sydd ei angen er mwyn dod a chartrefi i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Efallai eich bod wedi gweld hysbysebion yn y wasg dros yr wythnosau diwethaf yn gwahodd cwmnïau lleol i dendro am gytundebau gyda CCG i wneud gwaith ar eich cartrefi, gan gynnwys gosod drysau, ffenestri a systemau gwres canolog newydd. Bydd llawer o'r gwaith yn dechrau yn yr hydref felly bydd tenantiaid yn dechrau gweld y gwelliannau erbyn diwedd y flwyddyn.

Ym mis Hydref bydd cynllun peilot SATC yn cychwyn ym Mhenrhyndeudraeth gyda 44 o dai yn cael ceginau, ystafelloedd

ymolchi a weirio newydd. Tîm cynnal a chadw CCG fydd yn gyfrifol am y gwaith yma ac rydym yn awyddus iawn i gael mewnbwn tenantiaid ac i glywed beth rydych yn feddwl o'r gwaith.

Yn ogystal â gwella eich cartrefi rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi busnesau a swyddi lleol. Dywedodd Mick Butler, Cyfarwyddwr Asedau a Buddsoddi CCG: "Y gobaith yw y bydd ein gwaith SATC yn sicrhau budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hir dymor i'n tenantiaid ac i gymunedau ar draws y sir. Mae hwn yn gyfle go iawn ac rwy'n awyddus ein bod ni a busnesau lleol yn gallu manteisio ar y rhaglen fuddsoddi enfawr yma rydym ar fin cychwyn arni."

I ddysgu mwy am y rhaglen cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** a gofynnwch am y tîm buddsoddi neu e-bostiwrch **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**.

Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef y dylai pob aelwyd yng Nghymru gael y cyfle i fyw mewn cartrefi sydd o safon dda a sydd:

- mewn cyflwr da
- yn ddiogel ac yn sicr
- wedi'u gwresogi'n iawn, yn effeithlon o ran ynni ac wedi'u hinswleiddio'n dda
- yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern
- wedi'u rheoli'n dda (ar gyfer tai rhent)
- wedi'u lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel
- yn bodloni gofynion penodol yr aelwyd cymaint ag y bo modd

Tai Gwyrdd

Mae dros £1 miliwn yn cael ei wario ar gartrefi yn ardal Maesincla, Caernarfon er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni. Mae'r gwaith yn rhan o raglen ehangach CCG i ddod a thai tenantiaid yng Ngwynedd i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Fel rhan o'r prosiect bydd tenantiaid yn cael drysau a ffenestri newydd, yn ogystal â phaneli solar fydd yn cynhesu dŵr, systemau trydan solar ac ynysu waliau allanol.

Mae'r gwaith yn cael ei ariannu yn rhannol gan gynllun ARBED Llywodraeth y Cynulliad, sef cynllun gwyrdd i uwchraddio cartrefi a gwella effeithlonrwydd ynni mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Yn ôl Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Mae hwn yn gam cyntaf sylweddol yn ein rhaglen fuddsoddi ni o £136 miliwn dros y bum mlynedd nesaf. Gyda chymorth cronfa ARBED y Cynulliad rydym yn gallu cael effaith bositif ar fywydau tenantiaid trwy ddarparu tai mwy effeithlon fydd yn y pendraw yn lleihau costau tanwydd ac yn helpu'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf, ac sy'n dioddef tloedi tanwydd"



Cyng Huw Edwards; Tessa Jones; Sophie a Kayla Harte;
John Glyn Jones, Cadeirydd CCG; Peter Evans, Evans Wilson & Evans